

Tasg 1

Ffynnon garegu Gogledd Swydd Efrog

Tasgau darllen a deall a geirfa

1. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y darn am y Ffynnon Garegu:

tedis	tanddaearol	John Wayne	anifeiliaid marw	Ewrop
-------	-------------	------------	------------------	-------

2. Tynnwch **bedair** linell i gysylltu'r gair â'r diffiniad.

proses	llif neu rediad o ddŵr sy'n dod o'r ddaear
ffynnon	gwneud i rywbeth solet neu nwy fod yn rhan o hylif
arllwys	llawer o newidiadau sy'n digwydd yn raddol ac sy'n rhoi canlyniad
hydoddi	llifo, tywallt

3. Dewiswch y gair gorau i orffen pob brawddeg.

Ticiwch **un** bob tro.

a. Mae Ffynnon Garegu Knaresborough yn ffenomen ...

- hoffus
- naturiol
- gan ddyn
- ddeallus

b. Mae proses garegu'n digwydd yn eithaf ...

- ysbeidiol
- llonydd
- cyflym
- araf

c. Mae'r lle yn denu llawer o ...

- bysgotwyr
- adarwyr
- hwylwyr
- ymwelwyr

ch. Yn yr amgueddfa, gallwch chi weld llawer o ...

- bethau
- wrthrychau
- gwrthrychau
- ddŵr

4. **ei** neu **eu**?

Defnyddiwch **ei** gyda geiriau unigol ac **eu** gyda geiriau lluosog.
Rhowch **ei** neu **eu** yn y bylchau hyn:

- a. Mae gwrthrychau'n cael caregu yn y ffynnon.
- b. Cafodd het charegu yn Oes Victoria.
- c. Cafodd hetiau caregu yn Oes Victoria.
- ch. Mae ymwelwyr yn cael denu i weld y ffynnon.
- d. Mae bag Agatha Christie yn cael arddangos yn yr amgueddfa.
- dd. Mae mwynau'n cael hydoddi yn y dŵr.
- e. Roedd profion a gafodd gwneud yn dangos bod calsiwm carbonad a sodiwm swlffad yn y dŵr.

5. **Benywaidd neu wrywaidd?**

Dyma rai o'r enwau sydd yn y darn. Chwiliwch mewn geiriadur, yna ysgrifennwch frawddeg gyda'r enw + ansoddair (wedi'i dreiglo) er mwyn dangos os ai benywaidd neu wrywaidd yw'r enw.

e.e.

dŵr (enw gwrywaidd) Mae dŵr poeth yn llifo o'r tap.

het (enw benywaidd) Gwisgodd fy mam het **fawr** i fynd i'r briodas.

enw	benywaidd / gwrywaidd?	brawddeg
ffynnon	(enw)	
llyn	(enw)	
gwrthrych	(enw)	
craig	(enw)	

proses	(enw)	
amgueddfa	(enw)	